

Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol

# Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Crynodeb pobl ifanc

# Helo

Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc:

- yn cael gwrandawriad
- yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau
- yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt pan fydd ei angen arnynt
- yn cael cyfleoedd i gyrraedd eu nodau.

Weithiau mae angen rhywfaint o gefnogaeth ar bobl i sicrhau bod eu syniadau a'u barn yn cael eu clywed. Rydym yn galw hyn yn eiriolaeth.

Mae rhai gwasanaethau eirioli yng Nghymru yn wych, mae angen i eraill wella. Rydyn ni eisiau'r un safon wych ar gyfer holl blant a phobl ifanc Cymru.

Felly, rydym wedi ysgrifennu'r **Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol** newydd hwn.

Mae'r fframwaith hwn yn nodi:

- **safonau** – i awdurdodau lleol a gwasanaethau eirioli eu dilyn
- **canlyniadau** – y gwahaniaeth y bydd hyn yn ei wneud ym mywydau plant a phobl ifanc.

## Eich hawliau

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawliau. Maen nhw wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).

### Mae gennych yr hawl i gael gwrandawriad a'ch cymryd o ddirif (Erthygl 12)

Gall gwasanaethau eirioli eich helpu i gael yr hawl hon.



# Rhai ffeithiau am eiriolaeth

**Eiriolwr** yw rhywun i'ch helpu i gael eich clywed pan fyddwch yn teimlo nad oes unrhyw un yn gwrando ar eich barn.

## Gwasanaethau eirioli

Gall gwasanaethau eirioli helpu:

- i'ch cysylltu ag eiriolwr
- drwy siarad ar eich rhan
- i sicrhau eich bod chi'n cael eich clywed
- i wneud yn siŵr eich bod chi a'ch hawliau'n cael eu parchu.

## Awdurdodau lleol

Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i awdurdodau lleol gael gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc.

Weithiau mae awdurdodau lleol yn talu (comisiynu) sefydliadau i redeg gwasanaethau eirioli ar eu cyfer. Rhaid i'r sefydliadau hynny:

- fod â pholisiau cyfredol
- gwybod sut i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth yn ddiogel
- adrodd ar sut maen nhw'n dilyn y fframwaith newydd
- hyfforddi eu holl eiriolwyr.

## Cynnig gweithredol

**Nid yw sicrhau bod gwasanaethau eirioli ar gael yn unig yn ddigon.**

Dylai gweithiwr cymdeithasol ddweud wrth blentyn neu berson ifanc am wasanaethau eirioli. Dylent egluro beth y gall ac na all gwasanaethau eirioli ei wneud. Dylent hefyd egluro bod gwasanaethau eirioli:

- yn rhoi barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn neu'r person ifanc yn gyntaf
- yn gweithio iddyn nhw ac ar eu hochr nhw.

**Yr enw ar hyn yw cynnig gweithredol.** Rhaid gwneud cynnig gweithredol i blant a phobl ifanc:

- mewn gofal
- sy'n gadael gofal
- sydd angen cymorth ychwanegol.



# 1 Mae gan blant a phobl ifanc wasanaethau eirioli o ansawdd da sy'n hawdd dod o hyd iddynt a'u defnyddio.

## Bydd gwasanaethau eirioli:

- yn rhoi cymorth a chyngor yn gyflym
- yn cael eu hysbysebu'n dda
- gyda llawer o wahanol ffyrdd o gysylltu â nhw
- ar gael mewn llawer o wahanol leoedd fel y gall pawb eu defnyddio gan gynnwys plant a phobl ifanc ag anableddau
- ar gael ar wahanol adegau o'r dydd
- ar gael yn Gymraeg a Saesneg
- yn cynnwys gwasanaeth peiriant ateb ffôn dwyieithog sy'n egluro sut i gael help ar unwaith
- yn cytuno ar gynllun fel bod plant a phobl ifanc yn gwybod beth sy'n digwydd a phryd y bydd yn digwydd
- yn cyflogi staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda sy'n deall eu swydd
- yn casglu gwybodaeth a thystiolaeth ar sut maen nhw'n gweithio
- yn gwrando ar farn plant a phobl ifanc fel y gallant wella.



## Felly gall plant a phlant ifanc ddweud:

- Gallaf ddod o hyd i wasanaethau eirioli a'u defnyddio pan fydd eu hangen.
- Rydw i'n gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth am wasanaethau eirioli.
- Gallaf gael cefnogaeth ar unrhyw adeg o'r dydd.
- Mae rhywun yn fy ffonio'n ôl, pan fyddan nhw'n dweud eu bod nhw am wneud hynny.
- Mae gen i gynllun eirioli ac rwy'n gwybod beth sy'n digwydd.
- Roedd y staff wedi'u hyfforddi'n dda, yn deall eu swydd ac yn fy helpu yn y ffordd gywir.
- Gallaf roi adborth am fy mhrofiad o'r gwasanaeth.
- Fe wnaethon nhw ddweud wrthyf sut roedd fy adborth wedi gwneud wahanïaeth.

## 2 Mae plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel, eu hamddiffyn ac mae eu preifatrwydd yn cael ei barchu.

### Bydd gwasanaethau eirioli:

- yn parchu preifatrwydd
- yn cadw gwybodaeth yn gyfrinachol oni bai eu bod yn credu bod perygl o niwed
- ddim yn rhannu gwybodaeth heb esbonio pam
- yn esbonio'r holl wybodaeth cyn i eiriolaeth ddechrau
- yn cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel
- yn meddu ar bolisi diogelu plant a phroses atgyfeirio gyfoes
- yn cynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau
- yn gweithio i gadw'r berthynas eirioli yn dda
- yn meddu ar ffyrdd clir, hawdd eu deall o gwyno
- yn esbonio ffyrdd o gael help a chyngor os nad yw plant a phobl ifanc yn credu bod cwyn yn cael ei thrin.

### Sut olwg fydd ar hyn

### Canlyniadau



### Felly gall plant a phlant ifanc ddweud:

- Rwy'n gwybod bod gwasanaethau eirioli yn parchu fy mhreifatrwydd ac yn cadw fy manylion yn ddiogel.
- Rwy'n deall eu polisi cyfrinachedd a phryd y gallent rannu fy ngwybodaeth.
- Rwy'n teimlo'n ddiogel ac yn saff.
- Pan ddywedwyd wrthyf fy mod angen atgyfeiriad, fe wnaethon nhw ofyn p'un a allent rannu fy manylion.
- Cefais gymorth eirioli pan oeddwn i angen atgyfeiriad.
- Rwy'n gwybod y gallaf gwyno os oes problem.
- Rwy'n gwybod ble i gael help a chyngor os ydw i'n credu nad yw fy nghwyn wedi'i thrin yn iawn.

# 3 Mae plant a phobl ifanc yn cael eu trin â pharch, yn cael eu gwerthfawrogi ac nid ydynt yn cael eu trin yn wahanol oherwydd pwy ydyn nhw.

## Bydd gwasanaethau eirioli:

- trin pob plentyn a pherson ifanc yn deg
- sicrhau nad oes achos o wahaniaethu yn erbyn unrhyw un oherwydd oedran, rhyw, hil, crefydd, anabledd neu gyfeiriadedd rhywiol
- dweud wrth blant a phobl ifanc am eu hawliau, gan gynnwys eu hawl i gael eu trin yn gyfartal
- parchu anghenion diwylliannol, crefyddol ac iaith plant a phobl ifanc
- cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion cyfathrebu.



## Felly gall plant a phlant ifanc ddweud:

- Rwy'n cael gwasanaethau eirioli heb wahaniaethu.
- Rwy'n gwybod beth yw fy hawliau ac mae gennyf gefnogaeth i gael fy nghlywed.
- Mae gwasanaethau eirioli yn parchu fy anghenion diwylliannol a chrefyddol.
- Rwy'n gallu cael help yn yr iaith o'm dewis.
- Cefais i gyfieithydd i'm helpu i ddeall pethau pan oedd angen un arnaf.
- Fe wnaethon nhw yn siŵr fy mod yn cael gwybod y gallwn gael gwasanaethau eirioli hefyd.
- Cefais help i gyfathrebu.

# 4 Gall plant a phobl ifanc wneud penderfyniadau am y gwasanaethau eirioli maen nhw am eu cael, a gwybod bod eu hawliau'n cael eu hyrwyddo.

## Bydd gwasanaethau eirioli:

- hyrwyddo hawliau plant
- cael eu hariannu ar wahân i'r bobl sy'n eu gwirio
- rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar blant a phobl ifanc i archwilio eu hopsiynau a gwneud penderfyniadau
- cefnogi plant a phobl ifanc sydd am wneud cwyn
- rhoi rhestr o wasanaethau cyngor cyfreithiol i blant a phobl ifanc os oes ei angen arnynt
- dweud wrth blant a phobl ifanc y gallant newid eu heiriolwr
- cefnogi plant a phobl ifanc i; siarad ar eu pennau eu hunain, cael eiriolwr i siarad drostynt, neu'r ddau
- helpu plant a phobl ifanc i baratoi'r hyn maen nhw am ei ddweud
- diweddarau nodiadau achos a sicrhau eu bod nhw ar gael
- gwranddo ar adborth plant a phobl ifanc a'i ddefnyddio i wella.



## Felly gall plant a phobl ifanc ddweud:

- Rwy'n gallu dewis y gwasanaethau eirioli rydw i eu heisiau a gwneud penderfyniadau.
- Mae pobl yn gwranddo arnaf ac rwy'n cael fy mharchu.
- Rwy'n gwybod sut mae gwasanaethau eirioli'n cael eu hariannu a pham.
- Rwy'n gwybod bod gwasanaethau eirioli'n cael eu gwirio.
- Dywedwyd wrthyf am fy hawliau a chefais wybodaeth er mwyn i mi allu edrych ar fy opsiynau.
- Mae gennyf yr hawl i gwyno.
- Gallaf newid fy eiriolwr os dymunaf.
- Rwy'n gallu penderfynu sut rydw i eisiau i'm barn gael ei chyflwyno.
- Rwy'n teimlo'n hyderus ac yn barod i siarad am benderfyniadau.
- Mae gweithwyr proffesiynol yn parchu fy hawliau.
- Mae gwasanaethau eirioli ar fy ochr i, gan weithio i sicrhau bod fy llais yn cael ei glywed.
- Gallaf roi adborth a bydd yn gwneud gwahaniaeth.

# 5 Gall plant a phobl ifanc gymryd rhan yn y gwaith o ddylunio, cynllunio a sgorio gwasanaethau eirioli.

## Bydd gwasanaethau eirioli:

- ei gwneud yn hawdd i blant a phobl ifanc roi adborth ar eu profiad o eiriolaeth
- cefnogi plant a phobl ifanc i ddweud eu dweud am sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio, eu dylunio, eu darparu, eu gwirio a sut maen nhw'n cyflogi ac yn hyfforddi staff
- gofyn i gynifer o blant a phobl ifanc â phosibl, sut y gallant wella eu gwasanaeth.

Sut olwg fydd ar hyn

Canlyniadau



## Felly gall plant a phlant ifanc ddweud:

- Roeddwn i'n cymryd rhan, roedd rhywun yn gwrando arnaf fi ac fe wnes i helpu i lunio gwasanaethau eirioli.
- Mae pawb yn cael eu gwahodd i gymryd rhan a rhannu eu barn.



## Symud ymlaen

Mae'r fframwaith yn bwysig. Rydym am sicrhau bod yr holl wasanaethau eirioli yn ei ddilyn, felly mae ganddo reolau ar gyfer gwirio gwasanaethau.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth wneud y canlynol:

- casglu tystiolaeth am y cymorth maen nhw'n ei roi
- cynnwys adborth gan blant a phobl ifanc
- ysgrifennu adroddiadau sy'n hawdd eu deall ac sydd ar gael i bobl eu darllen.



## Diolch am ddarllen

Gallwch ddarllen mwy am y safonau yma:  
[llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/fframwaith-safonau-a-chanlyniadau-cenedlaethol-ar-gyfer-plant-a-phobl-ifanc-yng-nghymru.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/fframwaith-safonau-a-chanlyniadau-cenedlaethol-ar-gyfer-plant-a-phobl-ifanc-yng-nghymru.pdf)